# Coleg Gwent

## Adroddiadau Blynyddol
## Safonau'r Gymraeg

**1af Awst 2024 – 31ain Gorffennaf 2025**

**Ionawr 2026**

## Cyflwyniad


Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Coleg Gwent yn amlinellu cydymffurfiad y coleg â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llunio Polisi a Safonau Gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Safonau'r Gymraeg wedi disodli'r Cynllun Iaith Gymraeg yng Ngholeg Gwent, gan sefydlu disgwyliadau clir ar gyfer ein gwasanaethau dwyieithog a'r defnydd mewnol o'r iaith Gymraeg.

Ar 29 Medi 2017, derbyniodd Coleg Gwent Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol gan y Comisiynydd y Gymraeg, a amlinellodd gyfrifoldeb y coleg i gydymffurfio â 182 o Safonau Iaith Gymraeg statudol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dan Fesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Heriodd Coleg Gwent yn llwyddiannus yn erbyn chwech o'r safonau hyn - tair Safon Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 55, 58, a 59) a thair Safon Gweithredu (Safonau 128, 131, a 133) a arweiniodd at Ddyddiad Gorfodi diwygiedig o 1 Hydref 2019 ar gyfer y safonau hyn. Yn ogystal, ym mis Awst 2019, sicrhaodd y coleg estyniad ar gyfer Safonau 55, 58, a 59 (sy'n ymwneud â'r gwefan newydd) tan 16 Rhagfyr 2019.

Ers 1 Hydref 2018, mae'r coleg wedi cydymffurfio'n llwyr â'r holl 182 o safonau, gan wneud ystyried Safonau'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gweithrediadau dyddiol.

## Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Rhannir dogfen gyda'r staff a elwir 'Safonau'r Iaith Gymraeg: Beth maent yn golygu imi?'. Mae holl staff Coleg Gwent yn ymwybodol bod rhaid iddynt gydymffurfio gyda'r safonau.




Isod, mae diweddariad o sut mae Coleg Gwent wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau perthnasol yn y cyfnod rhwng y 1af o Awst 2024 a'r 31ain o Orffennaf 2025.

| **Rhif y safon** | **Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio (1af o Awst 2024 – 31ain o Orffennaf 2025)** |
|---|---|
| 1-7 | Mae pob aelod staff sy'n gohebu ag eraill wedi cael canllawiau manwl ar rwymedigaethau'r coleg o dan Safonau'r Gymraeg. Mae cymorth ar gael i alluogi staff i ohebu ag eraill yn y Gymraeg drwy ddefnyddio cyfieithwyr ac aelodau eraill o'r staff sy'n siarad Cymraeg. |
| 8 | Mae pob aelod o staff sy'n gohebu ag eraill wedi cael canllawiau manwl ar rwymedigaethau'r coleg o dan Safonau'r Gymraeg wrth gyfarch galwyr. |
| 9-13 | Buddsoddodd y coleg mewn system gweithredu ffonau newydd pum mlynedd yn ol, sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Safonau sy'n ymwneud â delio ag ymholiadau ffôn yn y Gymraeg.<br><br>Mae gennym un aelod o staff sy'n delio gyda galwadau Cymraeg. |
| 14 | Mae'r Adran Farchnata a chyfathrebu yn monitro, pan y cyhoeddir rhifau ffôn Coleg Gwent, ein bod yn nodi (yn Gymraeg) bod y coleg yn croesawu galwadau yn Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| 15 | Amherthnasol |
| 16-22 | Mae’r coleg wedi buddsoddi mewn system gweithredu ffonau newydd, sy’n cydymffurfio’n llawn â’r Safonau sy’n ymwneud â delio ag ymholiadau ffôn yn y Gymraeg. |
| 24-34 | Mae pob aelod o staff sy’n trefnu cyfarfodydd gydag eraill wedi cael canllawiau manwl ar rwymedigaethau’r coleg o dan Safonau’r Gymraeg. Mae cymorth ar gael i alluogi staff i ohebu ag eraill yn y Gymraeg drwy ddefnyddio cyfieithwyr ac aelodau eraill o'r staff sy’n siarad Cymraeg. |
| 35 – 42 | Mae pob aelod perthnasol o'r staff wedi cael canllawiau manwl ar hyrwyddo digwyddiadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Cynhelir archwiliadau mewnol yn rheolaidd ac mae prosesau ar waith i ddelio’n ddi-oed ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth. |
| 43-54 | Mae’n ofynnol fod pob dogfen gyhoeddus yn cael ei chymeradwyo gan yr Adran Farchnata. Mae hynny’n dileu unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfiaeth. |
| 55-59 | Gwefan<br><br>Mae testun pob tudalen o wefan y coleg ar gael yn y Gymraeg gyda phob tudalen Gymraeg yn gwbl weithredol, felly nid yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Yr adran farchnata sy’n gyfrifol am holl gynnwys y wefan ac mae ganddynt brosesau cynhwysfawr ar waith i sicrhau cydymffurfiant llawn. |
| 60 | Mae meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar gael ar holl gyfrifiaduron staff a myfyrwyr. |
| 61-63 | Mae’n ofynnol fod pob ap a phob cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn cael ei gymeradwyo gan yr Adran Farchnata. Mae hynny’n dileu unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfiaeth. |
| 64 | Sticeri Cymraeg wedi cael eu hychwanegu ar beiriannau hunanwasanaeth. Rydym yn cynnal awdit rheolaidd. |
| 65-67 | Mae pob aelod perthnasol o’r staff wedi cael canllawiau manwl ar arwyddion, i sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Cynhelir archwiliadau mewnol |

| | |
|---|---|
| | yn rheolaidd ac mae prosesau ar waith i ddelio'n ddi-oed ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth. |
| 73, 74 | Mae'n rhaid i bob hysbysiad gael ei gymeradwyo gan yr Adran Farchnata cyn cael ei osod, i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau perthnasol. |
| 75-79 | Mae'r holl weithdrefnau ar gyfer grantiau neu gymorth ariannol ar gael yn y Gymraeg ac ni fydd ceisiadau yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. |
| 80-84 | Mae'r coleg yn sicrhau bod pob gwahoddiad i dendro am gontract yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg (ac na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol) os yw pwnc y tendr am gontract yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn y Gymraeg; neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'i disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn y Gymraeg. |
| 85 | Mae'r gwasanaeth Cymraeg mae'r Coleg yn ei ddarparu yn cael ei hyrwyddo a'i hysbysebu yn Gymraeg ar bob platfform sydd ar gael. |
| 86-88 | Mae'n ofynnol fod pob dogfen gyhoeddusrwydd yn cael ei chymeradwyo gan yr Adran Farchnata. Mae hynny'n dileu unrhyw risg o ddiffyg cydymffurfio. |
| 89 | Mae pob cyfle dysgu newydd yn cael ei asesu o ran yr angen i gynnig y ddarpariaeth honno yn y Gymraeg. Mae'r gwerthusiadau hyn ar gael at ddibenion archwilio. |
| 90 | Cysylltir yn bersonol â phob dysgwr sy'n siarad Cymraeg i'w hysbysu am ei hawl i gyflwyno gwaith yn y Gymraeg. |
| 90A | Ni fydd unrhyw adran yn trin gwaith a gyflwynir yn y Gymraeg yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn y Saesneg. |
| 93 | Cysylltir yn bersonol â phob dysgwr sy'n siarad Cymraeg i'w hysbysu am ei hawl i gael mynediad at diwtor personol sy'n siarad Cymraeg. |

**Cydymffurfio â'r Safonau Gwneud Polisi**

Isod, mae diweddariad o sut mae Coleg Gwent wedi cydymffurfio â'r Safonau Gwneud Polisi yn y cyfnod rhwng y 1af o Awst 2023 a'r 31ain o Orffennaf 2024.

| Rhif y safon | Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio (1af o Awst 2024– 31ain o Orffennaf 2025) |
|---|---|
| 94-96 | Ers y 1af o Ebrill 2018, mae'r coleg yn asesu effaith unrhyw bolisi newydd ar y Gymraeg, o ran —<br><br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br><br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac yn ystyried ffyrdd y gallai polisïau gael effaith mwy cadarnhaol.<br><br>Mae pob awdur polisi yn cwblhau adran asesu effaith ar gyfer pob polisi newydd a chaiff ei hadolygu gan y Tîm Safonau'r Gymraeg.<br><br>Yn dilyn ymchwiliad, mae'r broses hon bellach wedi'i diweddaru i'w gwneud yn fwy cadarn. |
| 97-99 | Mae unrhyw ddogfen ymgynghori a gyhoeddir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018 yn rhoi ystyriaeth i bob elfen o Safonau 97 a 98. Mae pob awdur dogfen ymgynghori yn cwblhau adran asesu effaith a bydd Tîm Safonau'r Gymraeg yn adolygu hwn. |
| 100 | Mae Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn wedi ei ddiwygio yn unol â gofynion Safon 100. Mae'r polisi ar gael ar wefan y coleg. |
| 101-103 | Bydd cydymffurfiaeth yn rhan o unrhyw dendr am unrhyw waith a wneir ar ran y coleg. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Safonau Llunio Polisi. |
| 104 | Ers y 1af o Ebrill 2018, mae pob ffurflen gais am gwrs newydd a anfonir at Gyfarwyddwr y Cwricwlwm yn nodi'r canlynol:<br><br>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheiny'n bositif neu'n andwyol), y byddai'r cwrs hwnnw'n eu cael ar<br><br>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y byddai'r cwrs hwnnw'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r |

| | |
|---|---|
| | Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut na fyddai'r cwrs hwnnw'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae hyn yn cael ei adolygu gan Gyfarwyddwr y Cwricwlwm a Thîm Safonau'r Gymraeg cyn cymeradwyo. |

**Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol**

Isod, mae diweddariad o sut mae Coleg Gwent wedi cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol yn y cyfnod rhwng y 1af o Awst 2024 a 31ain o Orffennaf 2025.

| Rhif y Safon | Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio (1af o Awst 2024– 31ain o Orffennaf 2025) |
|---|---|
| 105 | Mae'r Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Coleg yn cael ei gyhoeddi ar ein tudalen polisïau ar y fewnrwyd a'r wefan. Mae Strategaeth Ddwyieithog flynyddol ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn weithredol ac yn cael ei fonitro gan Grŵp Llywio'r Gymraeg. |
| 106 - 110 | Gofynnir i bob unigolyn yn y pecyn gwiriadau cyn cyflogi os ydy ef neu hi'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg, a'i ddarparu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.<br><br>Mae pob gweithiwr wedi nodi os ydy ef/hi yn dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur yn Gymraeg, a'i ddarparu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. |
| 111 | Mae gennym gyfleuster hunanwasanaeth Cymraeg i weithwyr. Gall gweithwyr ddefnyddio hwn i neilltuo gwyliau blynyddol yn y Gymraeg a chofnodi absenoldebau. Mae ffurflenni caniatâd i fod yn absennol a ffurflenni gweithio'n hyblyg ar gael yn y Gymraeg ar y fewnrwyd. |
| 112 - 118 | Mae'r holl bolisïau ar gael yn Gymraeg ar y fewnrwyd. |
| 119, 119A | Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a bydd pob gohebiaeth Cymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| 121 | Pryd bynnag y trefnir cyfarfod, rhoddir gwybod i weithwyr y caiff staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ac y defnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen. |
| 122 - 123A | Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a bydd pob gohebiaeth Cymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg. |
| 125 | Pryd bynnag y trefnir cyfarfod, rhoddir gwybod i weithwyr y caiff staff ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ac y defnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os oes angen. |
| 126 | Mae gohebiaeth Cymraeg ynglŷn â mater o ddisgyblu yn cael ei hateb yn Gymraeg. |
| 127 | Mae meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar gael ar holl gyfrifiaduron staff a myfyrwyr. |
| 128 | Gallai holl staff y coleg weld testun pob tudalen y fewnrwyd yn y Gymraeg. Sicrheir bod pob tudalen Gymraeg ar y fewnrwyd yn gwbl weithredol, a diogelir nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. |
| 131 | Mae mewnrwyd newydd y coleg yn cydymffurfio â'r canlynol:<br><br>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg ei chyfrwng, mae'n rhaid nodi'n glir ar y dudalen Saesneg honno bod y dudalen hefyd ar gael yn y Gymraeg, ac mae rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg o'r dudalen Saesneg cyfatebol. |
| 133 | Mae'r rhyngwyneb a dewislen tudalennau'r fewnrwyd ar gael yn y Gymraeg. |
| 134 | Mae modd i weithwyr ddiweddaru eu sgiliau Cymraeg ar ein platfform hunanwasanaeth i weithwyr. |
| 135 | Amherthnasol |
| 136 | Adran Adnoddau Dynol I drefnu cyrsiau hyfforddiant Cymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu ar gyfer 2018-19. Rhoddir cyhoeddusrwydd i hyn gyda'r holl staff. |
| 138, 139 | Mae gwersi Cymraeg am ddim ar gael i staff. Mae hyn wedi'i nodi yn y polisi dysgu a datblygu. |

| | |
|---|---|
| 140 | Ceir cwrs ar-lein ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg y mae'n rhaid ei gwblhau yn ystod y cyfnod cynefino. |
| 141 | Mae darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ran o'n trefniadau cynefino. |
| 142 - 144A | Mae'r canlynol ar gael ar gyfer holl staff y coleg;<br>• logo a geiriad ar gyfer llofnodion e-bost eich, sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.<br>• geiriad fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst<br>• fersiwn Gymraeg o neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.<br>• Cortyn a bathodyn o wisgo i gyfleu eu bod yn siarad Cymraeg. |
| 145 | Mae'r holl hysbysebion swyddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| 145A | Os yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol neu ddymunol, neu fod angen eu dysgu, mae hynny'n cael ei nodi'n glir yn yr hysbyseb ac yn hysbysebu yn y Gymraeg. |
| 146, 146A, 146B | Mae pob ffurflenni cais am swyddi, deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi, gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r dogfennau Saesneg. Nid yw ceisiadau am swydd a wneir yn Gymraeg yn cael llai eu trin yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg. |
| 148 | Mae blwch ar ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, ac yn esbonio ein bod yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen.<br><br>Os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad neu'r asesiad, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweliad neu asesiad. |
| 149 | Wrth roi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rydyn ni'n wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg. |

**Hyfforddiant Staff**

Mae Coleg Gwent yn cymryd rhan ym mhrosiect Cymraeg gwaith AB y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n anelu at uwch sgilio darlithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu haddysgu. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24, cwblhaodd 31 o aelodau staff y cwrs, gyda mwy na hanner ohonynt yn adeiladu ar eu cynnydd o'r flwyddyn flaenorol.

Erbyn Gorffennaf 2024, roedd cyfanswm o 65 o staff addysgu wedi cwblhau hyfforddiant Mewnosod y Gymraeg, gan eu galluogi i ddarparu addysg fwy dwyieithog i fyfyrwyr. Yn ogystal, mae staff mewn gwahanol rolau wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant pellach Sgiliaith ar-lein, gyda dau unigolyn yn derbyn mentora un-i-un.

**Monitro Cydymffurfiad**

Mae'r Tîm Cymraeg/Dwyieithrwydd yn parhau i gydweithio'n agos gyda rheolwyr uwch, gan ddarparu cyngor ar sut i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol rheolaidd gyda chynllunwyr allweddol, gan gynnwys pennaeth y cwricwlwm, marchnata, AD, a staff sy'n siarad Cymraeg.

Cynhelir gwirio mewnol ar hap ar arwyddion, negeseuon ffôn a meysydd allweddol eraill, gan gynnwys ymarferion rheolaidd yn y steil siopwr cudd. Mae'r ymarfer Siopwr Cudd yn edrych ar y gwasanaeth a gynigir gan y coleg, gan gynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb â staff y derbynfeydd, ymholiadau ffôn ac ymholiadau ar-lein.

Dangosodd canlyniadau'r archwiliad allanol diweddaraf, a gynhaliwyd yn 2024, bod y coleg yn cydymffurfio'n llawn ym mhob maes. Adolygodd y broses gwirio mewnol ddigwyddiadau a seremonïau, gyda'r Tîm Dwyieithrwydd yn mynychu ac yn darparu tystiolaeth o gydymffurfio. Adnabodd yr archwiliadau ychydig o feysydd i'w gwella, a rhannwyd y rhain gyda'r rheolwyr perthnasol.

Mae canfyddiadau'r archwiliadau yn cael eu rhannu gyda'r rheolwyr a'r staff perthnasol, gan dynnu sylw at feysydd cryfder. Pan nodir diffyg cydymffurfio, trefnir hyfforddiant a chanllawiau pellach.

Mae gan y coleg hefyd Grŵp Llywio Iaith Gymraeg, a gadeirir gan y Rheolwr Datblygu Dwyieithog. Mae'r grŵp rheoli hwn yn cwrdd unwaith y tymor i drafod diweddariadau ar y Safonau Iaith Gymraeg, adolygu canlyniadau siopwr cudd, a thrafod materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg/Dwyieithrwydd.

**Sgiliau Cymraeg Staff**

Ar 31 Gorffennaf 2024, roedd 80 aelod o staff (7%) yn siarad Cymraeg yn rhugl neu ar lefel uwch.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am lefelau llafar Cymraeg staff ym mis Gorffennaf 2024. Mae lefelau Cymraeg y staff sy'n gweithio i Dysgu Cymraeg Gwent wedi'u cynnwys.

| Lefel Cymraeg | Llafar (nifer o staff) | Llafar (%) |
|---|---|---|
| Dim | 451 | 39 |
| Sylfaenol iawn | 303 | 26 |
| Sylfaenol | 276 | 24 |
| Canolradd | 35 | 3 |
| Uwch | 12 | 1 |
| Rhugl | 70 | 6 |

Cafodd cyfleoedd amrywiol eu hyrwyddo i bob aelod o staff i wella eu sgiliau Cymraeg. O ganlyniad i ddarpariaeth a chyfleoedd newydd i wella sgiliau yn y coleg, mae y nifer o staff sy'n symud i fyny'r lefelau o rugldeb yn cynyddu..

**Recriwtio ar gyfer Swyddi Newydd a Swyddi Gwag**

Mae nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gan Goleg Gwent rhwng y 1af o Awst 2024 a 31ain o Orffennaf 2025 a gafodd eu categoreiddio yn unol â gofynion amrywiol mewn perthynas â Sgiliau'r Gymraeg, fel a ganlyn:

- Dymunol – 87
- Hanfodol – 6

**Cofnod Cwynion**

Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd y Coleg gŵyn ac o ganlyniad daeth o dan ymchwiliad ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r penderfyniad i ddod â'r cwrs Lefel A Cymraeg i ben yn Safle Blaenau Gwent. Bu'r ymchwiliad yn ystyried pryderon nad oedd y Coleg wedi gwneud ymdrech gydwybodol i asesu effaith bosibl y penderfyniad ar y Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch a oedd y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan y Coleg yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau perthnasol.

Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, daeth y Comisiynydd i'r casgliad nad oedd y Coleg wedi cydymffurfio â'r safonau llunio polisïau (94–96), gan nad oedd tystiolaeth ddigonol ei fod wedi ystyried y Gymraeg yn briodol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr ymchwiliad nad oedd y safonau sy'n ymwneud â dogfennau ymgynghori (97–99) yn berthnasol yn yr achos hwn, gan nad oedd dogfen ymgynghori ffurfiol wedi'i chyhoeddi. O ganlyniad, gosododd y Comisiynydd gamau gorfodi, gan gynnwys datblygu canllawiau newydd ar asesu effaith ar y Gymraeg a darparu hyfforddiant i staff sy'n gwneud penderfyniadau polisi. Mae gwaith ar weithredu'r argymhellion hyn eisoes ar y gweill